

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennais atoch ddiwethaf ar 20 Ionawr i roi cynigion y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i chi ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru yn 2021. Fel y gwyddoch, datblygwyd y dull graddau a bennir gan y ganolfan a amlinellwyd gennym yn y llythyr hwnnw yng nghyd-destun cwrs newidiol y pandemig dros gyfnod y Nadolig, y penderfyniad i ysgolion a cholegau symud i ddysgu o bell o fis Ionawr ymlaen, a diddymu cyfnod asesu mewnol y gwanwyn ar frys.

Cafodd y dull a gynigiwyd gennym ei lunio gan y rhai a fyddai'n ei gyflwyno – penaethiaid, penaethiaid colegau ac ymarferwyr – mewn ffordd golegol. Felly roedd yn ymwybodol o oblygiadau'r gweithlu, yn ogystal â'r flaenoriaeth o sicrhau'r amser addysgu a dysgu mwyaf posibl bryd hynny. At hynny, fe'i datblygwyd i fod mor wydn â phosibl i ansicrwydd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r pandemig, a chydag ystyriaethau o ran llais, lles a chynnydd y dysgwr yn ganolog iddo. Bwriad y model yw meithrin hyder ymhlith dysgwyr a'r cyhoedd yn ehangach yn y trefniadau ar gyfer cymwysterau eleni.

Ers hynny, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a CBAC i gefnogi'r sgaffaldwaith angenrheidiol a fydd yn helpu ysgolion a cholegau i gyflwyno graddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddysgwyr sy'n dryloyw ac yn gyson. Mae hyn wedi cynnwys cyngor ac adborth ar ddatblygu'r fframwaith ar gyfer asesu a sicrhau ansawdd, canllawiau i ganolfannau a chyfleoedd dysgu proffesiynol, dulliau cyfathrebu â dysgwyr a chanolfannau, a gwreiddio materion llais a chydaddoldeb dysgwyr ymhellach. Mae hefyd wedi cynnwys trafodaeth â ffocws i hyrwyddo eglurder ar agweddau allweddol ar y dull gweithredu, gan gynnwys y broses ar gyfer apeliadau, llwybrau i ymgeiswyr preifat, ac ymdrechion i hyrwyddo cysondeb – gan adlewyrchu barn y grŵp y byddai elfen o drafodaeth allanol, mewn perthynas â gweithredu'r model a phroffil gradd cyffredinol canolfannau, yn bwysig o ran helpu i roi sicrwydd a hygrededd i'r cyhoedd. Rydym wedi parhau i fod yn ymwybodol o'r hyn a ddysgwyd o 2020, fel y nodir yn yr adolygiad annibynnol, wrth i ni ddatblygu ein syniadau.

Ar y meysydd hyn a meysydd allweddol eraill y ceisiaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn awr ac, wrth wneud hynny, rhoi sicrwydd ichi am y cynnydd a wnaed, yn ogystal â'r camau nesaf a gynigiwyd gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i gefnogi'r gwaith o gyflwyno graddau a bennir gan y ganolfan yn effeithiol.

Ar ôl fy niweddariad diwethaf i chi, myfyriodd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni ar yr angen i ehangu'r cyngor sydd ar gael i ni, er mwyn sicrhau mwy o gynrychiolaeth o'r mathau o ganolfannau sy'n bodoli ledled Cymru ac i sicrhau bod safbwyntiau amgen a newydd yn cael eu cyflwyno. Ym mis Ionawr, felly, gwnaethom groesawu aelodau ychwanegol i'r grŵp sy'n adlewyrchu'r gynrychiolaeth ranbarthol, a chan ysgolion/colegau, y mae pob un ohonynt wedi darparu cyfraniadau gwerthfawr a her adeiladol barhaus i lunio ein cynigion polisi.

Mae'r grŵp wedi cydnabod yr heriau a grëwyd gan ansicrwydd parhaus, gan gynnwys y rhai a ofynnwyd gan ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar drefniadau ar

gyfer cymwysterau yn Lloegr, a oedd yn cynnwys amserlennu diwrnodau canlyniadau, a'r effaith ddilynol ar amserlenni ar gyfer awdurdodaethau eraill. Felly rydym wedi ceisio cefnogi Cymwysterau Cymru a CBAC yn barhaus i ddarparu eglurder drwy wneud penderfyniadau cynnar – er enghraifft, mewn perthynas â threfniadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau. Lle na fu hyn yn bosibl, mae'r grŵp wedi blaenoriaethu syniadau polisi i helpu i arwain canolfannau mewn ffordd iteraidd. Felly, rydym hefyd wedi ceisio cefnogi Cymwysterau Cymru a CBAC drwy roi seinfwrdd iddynt, i roi adborth ar hydrinedd gweithdrefnau arfaethedig a sicrhau bod y canllawiau'n glir i bawb, ac i gefnogi rhyddhau gwybodaeth cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi canolfannau i wneud eu paratodau.

Yn olaf, ein barn ni yw bod Cymru yn un cam ar y blaen yn dilyn y penderfyniad cynnar i ganslo arholiadau'r haf yng Nghymru, hyd yn oed os yw holl awdurdodaethau'r DU bellach ar lwybr gweddol debyg. Serch hynny, mae dulliau pob gwlad yn amrywio i raddau ac mae'n dal yn ddoeth parhau i ymwneud yn agos â'u manylion sy'n dod i'r amlwg ar eu trefniadau ar gyfer cymwysterau eleni. Gallaf gadarnhau, felly, ein bod ni fel grŵp wedi ystyried adborth lle bo ar gael ar dulliau a ddefnyddiwyd mewn awdurdodaethau eraill i ddarparu cyd-destun ehangach ar gyfer ein ffordd o feddwl yng Nghymru. Ein blaenoriaeth o hyd fel grŵp, fodd bynnag, yw sicrhau bod ein cynigion yn gweithio i ysgolion a cholegau yng Nghymru, yn enwedig o ystyried cyd-destun a llwybr gwahanol polisi addysg yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwnnw, hoffwn eich llongyfarch ar basio Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Wrth nodi'r hyn sy'n dilyn, rwyf wedi myfyrio ar y ffordd y mae'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni wedi strwythuro ei hun yn is-grwpiau, proses sydd wedi gofyn am ymrwymiad personol sylweddol – yn enwedig gan gadeiryddion yr is-grwpiau – ond sydd wedi cefnogi ystyriaeth fanwl o faterion cymhleth wrth sicrhau eu bod yn cydgysylltu ac yn unol â set o gynigion cyffredinol y cytunwyd arnynt.

Fframwaith Asesu a Sicrhau Ansawdd, grŵp o dan gadeiryddiaeth Sarah Sutton, Ysgol Eirias, Conwy

Mae'r model graddau a bennir gan y ganolfan yn pwysleisio ffydd yn y proffesiwn a hyblygrwydd lleol, felly cynigiodd yr is-grŵp sy'n gweithio yn y maes hwn sgaffaldwaith hyblyg ar gyfer canolfannau sydd â'r nod o hyrwyddo cysondeb a thryloywder, gan eu cefnogi i ddatblygu eu cynlluniau asesu a'u dulliau o sicrhau ansawdd mewnol. Gyda hynny mewn golwg, maent wedi llywio datblygiad nifer o feysydd, ac wedi rhoi adborth ynddynt, gan gynnwys 'Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo' Cymwysterau Cymru a Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC.

Trafodaethau rhwng canolfannau

Rydym yn argymhell yn gryf fod pob canolfan yn cymryd rhan mewn 'trafodaethau rhwng canolfannau' wrth weithredu'r model, ac mae hyn yn rhywbeth y gallaf adrodd ei fod eisoes yn digwydd drwy rwydweithiau a chydberthnasau sefydledig rhwng canolfannau ledled Cymru. Mae rhoi'r gallu i arweinwyr weithio gyda grŵp o arweinwyr eraill, ar gerrig milltir allweddol yn y broses, yn ei gwneud yn bosibl hwyluso dealltwriaeth glir o brosesau a chyd-gefnogaeth. Drwy wneud hyn, rydym yn

adeiladu ar ddyheadau Cymru ar gyfer system o ysgolion a cholegau sy'n gwella ei hunan. Mae'r trafodaethau hyn hefyd yn integreiddio cyfleoedd pellach i ganolfannau roi adborth lle y gallai fod angen cymorth neu eglurder ychwanegol yn genedlaethol. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad adeiladol â'r dull hwn gan gonsortia addysg rhanbarthol ac am eu cynnig o gymorth i hwyluso'r sgysiau hyn rhwng canolfannau lle nad ydynt yn digwydd eto o bosibl. Rwy'n ymwybodol nad yw hyn yn rhan o'r model ffurfiol, ond ystyriwn fod hwn yn arfer da ac mae'r grŵp o'r farn ei bod yn werthfawr bod cydweithwyr ledled Cymru wrth reddf yn ceisio cydweithio â'u cymheiriaid, sef proses a fydd yn helpu i feithrin hyder ymhlith dysgwyr a hyder ehangach yn y system gymwysterau eleni.

Naratifau proffiliau gradd

Gallwn weld y fantais i benaethiaid ac arweinwyr colegau nodi eu rhesymu mewn ffordd glir o ran sut y gallai'r proffil gradd cyffredinol yn eu canolfan fod wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig mewn perthynas â thaith wella'r ganolfan ei hun. Felly mae'r grŵp wedi gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a CBAC i ddeall rôl naratifau proffiliau gradd, sy'n rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd mewnol. Rydym yn cydnabod y gall y cam hwn fod yn gyfraniad pwysig i hyder ehangach ymhlith dysgwyr a'r cyhoedd, hyd yn oed os na fydd y naratifau hyn yn cael eu cyhoeddi. Yn bwysig, rydym yn cydnabod y bydd y rhain yn creu'r cyfle i gael deialog broffesiynol gyda CBAC os yw'n berthnasol, ac roedd hwn yn gam a oedd yn absennol ac a ragwelwyd gan rai canolfannau yn 2020, ac y cyfeiriwyd ato yn yr adolygiad annibynnol. Ein dealltwriaeth ni yw na fydd CBAC yn diwygio graddau yn dilyn y broses hon a bydd y cyfrifoldeb am y radd yn aros gyda'r ganolfan.

Er bod safbwyntiau gwahanol wedi'u cynnig o fewn y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni o ran sut y gellid cymhwyso'r egwyddor o allanoldeb, a chodwyd nifer o bryderon ynghylch pa fath o ymateb y gellid ei ddisgwyl gan y cyhoedd os nad yw'r prosesau naratif a gweinyddol cysylltiedig yn gydlynol, mae'r grŵp yn cydnabod y pwysigrwydd a roddir gan Weinidogion ar yr agwedd hon ac wedi dod i gonsensws bod ei hymgorffori yn y model yn rhan bwysig o feithrin hyder y cyhoedd yn y dull yr ydym yn ei gymryd yng Nghymru.

Ystyriaethau Dysgu Proffesiynol a'r Gweithlu, grŵp o dan gadeiryddiaeth Marc Belli, Ysgol Cil-y-coed, Sir Fynwy, ac Ysgol Esgob Llandaf, Caerdydd

Er bod y dull o ymdrin â graddau a bennir gan ganolfannau wedi'i gyd-adeiladu gan benaethiaid ysgolion a phenaethiaid colegau, gyda dealltwriaeth glir o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â darparu addysg ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod ei fod yn ddull newydd sy'n cael ei weithredu'n gyflym. Mae'r is-grŵp hwn, felly, wedi parhau i weithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a CBAC i helpu i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol gyda'r nod o gefnogi staff ar bob lefel i lywio'r dull gradd a bennir gan y ganolfan.

Mae'r cynnig hwn, sydd eisoes ar y gweill, yn cynnwys gweminarau rheolaidd a drefnwyd gan CBAC a'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni (a gynullir gan eich swyddogion mewn llawer o achosion), sesiynau holi ac ateb, fideos hyfforddi CBAC wedi'u recordio ymlaen llaw ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr, a hyfforddiant ar

ragfarn ymwybodol/ddiarwybod a sut i liniaru ei heffeithiau. Mae hefyd yn cynnwys datblygu cyfres o adnoddau dysgu proffesiynol digidol, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd gan aelodau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, a gyhoeddodd ar [Hwb](#) yn ddiweddar fideos ac enghreifftiau o gynlluniau a phrosesau ar lefel y ganolfan. Mae'r trafodaethau rhwng canolfannau a grybwyllwyd yn flaenorol yn ategu'r cynnig ffurfiol cynhwysfawr hwn o ddysgu a chymorth proffesiynol. Er bod CBAC wedi bod ar y blaen ar y cynnig hwn, mae'r is-grŵp wedi parhau i'w gynghori ar flaenoriaethau.

Fel penaethiaid ysgolion a cholegau presennol, mae'r grŵp yn cydnabod bod goblygiadau llwyth gwaith yn gysylltiedig â'r dull o ymdrin â chymwysterau yn 2021, gan gynnwys yr amser a'r gallu sy'n gysylltiedig â sefydlu systemau a phrosesau newydd. Yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, rydym yn ddiolchgar felly am gadarnhad y bydd y diwrnod HMS dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer tymor yr haf ar gael i ysgolion ei ddefnyddio i gefnogi dysgu a datblygu athrawon mewn perthynas ag asesiadau o amgylch y broses graddau a bennir gan y ganolfan, gan gydnabod y cyfleoedd dysgu sylweddol y mae'r gwaith hwn yn eu darparu wrth i ni baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Rydym hefyd yn croesawu'r iteriadau diweddaraf o ganllawiau dysgu Llywodraeth Cymru, sy'n creu gofod ac amser ychwanegol i ganolfannau, yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael i ysgolion a cholegau i helpu i yrru'r gwaith pwysig hwn yn ei flaen. Mae'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cymorth parhaus i ganolfannau wrth iddynt weithredu'r model graddau a bennir gan y ganolfan.

Cydraddoldeb a Llais y Dysgwyr, grŵp o dan gadeiryddiaeth Mair Hughes, Ysgol Penglais, Aberystwyth

Yn unol â'n cylch gorchwyl, ac yn adlewyrchu'r flaenoriaeth yr ydych wedi'i rhoi'n bersonol ar sicrhau dulliau teg i ddysgwyr eleni, sefydlwyd is-grŵp i sicrhau bod materion cydraddoldeb a llais y dysgwyr yn ganolog i'r dulliau yr ydym yn eu datblygu ar gyfer 2021. Un o'r prif sbardunau ar gyfer eu gwaith fu sicrhau bod y materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a nodwyd yn y dull o ddyfarnu graddau y llynedd yn cael eu hystyried ar gam cynnar yn y broses gynllunio yn 2021. Canolbwyntiwyd yn barhaus hefyd ar sicrhau bod llais a safbwyntiau dysgwyr yn cael eu hyrwyddo a'u hadlewyrchu drwy gydol y model wrth iddo gael ei ddatblygu.

Gyda'r meysydd hyn mewn golwg, mae'r grŵp wedi ystyried y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan bartneriaid allweddol yn y gofod hwn, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Gan weithio ochr yn ochr ag is-grwpiau eraill, mae wedi llywio ystyriaethau allweddol o ran cydraddoldeb, gan sicrhau bod y fframwaith asesu yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer pob dysgwyr, y cefnogir canolfannau i sefydlu prosesau ar gyfer monitro materion cydraddoldeb, a bod staff yn cael eu cefnogi drwy gynnig dysgu proffesiynol cadarn a pherthnasol fel eu bod yn cael eu cefnogi'n well i ddeall y disgwyliadau sy'n ofynnol ganddynt o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

O ran llais y dysgwr, yn ogystal â myfyrio ar farn dysgwyr a gyflwynwyd drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys yr Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau yn 2020, Arolwg Comisiynydd Plant Cymru, a deialog â dysgwyr yn eu lleoliadau eu hunain, mae'r is-grŵp wedi ymgysylltu â Cymwysterau Cymru ynghylch ei gynigion i sefydlu Grŵp Cyngori Dysgwyr. Mae hefyd wedi ymgysylltu â phrosiect ymchwil Llais y Dysgwr sy'n cael ei gynnal gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn darparu dolen adborth fel y gallwn ddeall gyda'n gilydd pa mor dda y mae gwybodaeth yn cael ei derbyn a'i deall gan ddysgwyr, gan deilwra dulliau gweithredu yn unol â hynny.

Yn olaf, ystyriodd yr is-grŵp hwn gynigion hefyd ar gyfer sicrhau llwybr teg i ymgeiswyr preifat gael mynediad at gymwysterau ac i gymwysterau gael eu dyfarnu iddynt eleni. Mae'n ddealladwy bod hyn wedi bod yn ymgymeriad cymhleth o ystyried natur amrywiol y garfan ymgeiswyr preifat yng Nghymru a lle y gallai fod gan rai canolfannau bryderon mewn perthynas â llwyth gwaith, neu eu gallu i lunio barn broffesiynol gadarn ar gyfer y dysgwyr hyn.

Felly, rwyf yn falch o gadarnhau ein bod, gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, wedi cyflwyno cyfres o gynigion ar gyfer yr ymgeiswyr hyn sy'n deg ac yn gyfiawn yn ein barn ni o dan yr amgylchiadau unigryw sy'n bodoli eleni. Bydd yr ymgeiswyr preifat hynny sydd â pherthynas bresennol â'u hysgol neu goleg yn dilyn eu dull graddau a bennir gan y ganolfan. Lle nad oes gan ymgeiswyr preifat berthynas bresennol â chanolfan, bydd eich swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi a chefnogi grŵp o ganolfannau ledled Cymru a fydd yn cynnig lleoedd i ymgeiswyr fel y gallant ddilyn eu cymwysterau drwy gwblhau asesiadau wedi'u marcio a'u graddio gan CBAC.

Apeliadau, grŵp o dan gadeiryddiaeth Kay Martin, Coleg Caerdydd a'r Fro

Yn olaf, ond o ddiddordeb arbennig i ddysgwyr a chanolfannau, sefydlwyd is-grŵp i edrych yn benodol ar sut y byddai proses apelio deg ac ymarferol yn cael ei sefydlu. Felly ystyriodd y grŵp broses apelio bosibl yn ofalus, a rhoddodd adborth i Cymwysterau Cymru arni, yn unol â'ch cyfarwyddyd ar 19 Chwefror a oedd yn gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu'r broses apelio.

Wrth ymdrin â'r dasg hon, pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd sicrhau dull a fyddai'n effeithiol ac yn dryloyw i ddysgwyr – gan wella eu lles a'u hyder yn dilyn blwyddyn gythryblus; yn cefnogi mwy o gywirdeb yng nghanlyniadau dysgwyr; yn peidio â rhoi dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o'u cymharu â dysgwyr yn Lloegr sy'n dilyn cymwysterau tebyg; ac yn lleihau'r effaith ar lwyth gwaith, yn enwedig dros wyliau'r haf.

Mae'r dull hwn yn gosod cwrs gwahanol i'r dull a nodwyd yn Lloegr, ond rydym yn fodlon bod y dull a gynigir ar gyfer Cymru yn dod ag amrywiaeth o fanteision, gan gynnwys mwy o gywirdeb drwy gefnogi dyfarniadau manwl ar raddau unwaith y byddant wedi'u dyfarnu dros dro; y cyfle i fyfyrion ar unrhyw wallau a'u cywiro cyn eu cyflwyno i CBAC; a gwella lles dysgwyr cyn i'r tymor ddod i ben. Ein bwriad hefyd yw y bydd canolfannau, trwy'r dull hwn, wedi cwblhau eu mewnbwn mwyaf sylweddol i'r

broses apelio cyn dechrau gwyliau'r haf. Rwy'n deall bod Comisiynydd Plant Cymru wedi cefnogi'r dull hwn hefyd.

Casgliad

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, yn ogystal â chynrychiolwyr Cymwysterau Cymru, CBAC a Llywodraeth Cymru, nid yn unig am eu gwaith caled a'u hymdrechion ar gyflymder sylweddol, ond am y ffordd golegol y maent wedi cydweithio i gyd-lunio dull a fydd yn cefnogi canolfannau i ddyfarnu graddau i ddysgwyr y gallant hwy, ac yn wir y cyhoedd yn gyffredinol, fod â hyder ynddynt. Wrth gwrs, mae nifer o heriau a risgiau sy'n parhau wrth i'r model gael ei weithredu. Nid yw'r rhain yn anorchfygol ond byddant yn gofyn am ymrwymiad y sector addysg cyfan i barhau i gydweithio i gefnogi cynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Ar lefel ysgolion a cholegau, bydd angen cyfraniad sylweddol gan ein gweithlu addysgu ac arweinyddiaeth gref, foesegol gan ein harweinwyr ysgolion a cholegau.

Wrth inni symud ymlaen gydag ymrwymiad o'r cam datblygu i'r cam o ddarparu'r dull graddau a bennir gan y ganolfan yng Nghymru, gallwn fod yn sicr ein bod nid yn unig yn dilyn ymagwedd at gymwysterau sy'n deg i ddysgwyr o ystyried yr amgylchiadau eleni, ond ein bod yn gwneud hynny yng nghyd-destun rhaglen ehangach o ddiwygio addysgol. Felly, bydd ein hymdrechion ar y cyd yn anochel yn arwain at gyfleoedd pwysig i fyfyrion ar y dysgu a gynhyrchir drwy'r model graddau a bennir gan y ganolfan wrth i ni edrych ar drefniadau ar gyfer y cwricwlwm, asesu a chymwysterau yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am y rôl yr ydych wedi'i chyflawni fel Gweinidog Addysg Cymru: mae'n un sydd wedi arwain at newidiadau cadarnhaol sylweddol i'r tirlun addysg yng Nghymru. Hoffwn gadarnhau ymrwymiad y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i barhau yn ein rolau, sydd bellach yn esblygu fwyfwy o lywio gwaith cynllunio i gefnogi darpariaeth mewn rhinwedd lysgenhadol a thrwy roi adborth, a gobeithiaf, felly, y cewch eich sicrhau y byddwn wrth law i ddarparu cymorth parhaus wrth weithredu ein dull cytûn.

Mae'r cyfle i eistedd ar y grŵp hwn yn un sydd wedi ein galluogi ni i gyd i ddatblygu dysgu dwfn ar ddulliau o ymdrin â chymwysterau ac mae'r holl aelodau'n teimlo mai eu rôl nhw yw rhannu'r dysgu hwn er budd system Cymru.



Geraint Rees

Cadeirydd

Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni Cymru, Cymwysterau 2021